------------------------Pecyn dogfennau cyhoeddus ------------------------

# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgor 5 (Hybrid)**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2023

Amser: 14.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Rhys Morgan**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

## Cofrestru cyn y cyfarfod: 13.30 - 14:00

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: sesiwn dystiolaeth 7

(14:00-15:00) (Tudalennau 1 - 20)

Amanda Blakeman, Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Dafydd Llywelyn, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

Emma Wools, Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(15:00)

**3.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

(Tudalen 21)

**3.2 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Cytundeb ar**

Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd (DU/Sbaen)

(Tudalennau 22 - 28)

3.3 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Busnes at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 29 - 31)

3.4 Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch darparu safle ar gyfer Sipsiwn, Roma a Theithwyr

(Tudalennau 32 - 35)

3.5 Gohebiaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

(Tudalennau 36 - 41)

3.6 Gohebiaeth gan Fferylliaeth Gymunedol Cymru at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch symud gwasanaeth presgripsiynu electronig gofal sylfaenol ar bresgripsiynau ar draws ffiniau

(Tudalennau 42 - 43)

3.7 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

(Tudalen 44)

3.8 Gohebiaeth gyda'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

(Tudalennau 45 - 49)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (vi) a (ix) i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

(15:00)

**5 Atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd: trafod y dystiolaeth a materion allweddol**

(15:00–15:45)

**6 Cyfiawnder data: trafod gohebiaeth ddrafft**

(15:45–15:55) (Tudalennau 50 - 68)

**7 Blaenraglen waith**

(15:55 - 16:10) (Tudalennau 69 - 77)

**8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion: trafod yr adroddiad drafft**

(16:10–16:20)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref:

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
SeneddLJC@senedd.cymru

21 Mehefin 2023

Annwyl Huw,

**Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol: Y Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo**

Rwy'n ysgrifennu'n unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol i roi gwybod ichi y bydd cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar Ddiogelwch a Mudo yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 11 Gorffennaf 11am-12:15pm. Bydd yn cael ei gadeirio gan yr Ysgrifennydd Cartref, y Gwir Anrh. Suella Braverman CB AS. Byddaf yn ymuno â'r cyfarfod yn rhithiol.

Cytunwyd y bydd y cyfarfod yn canolbwyntio ar lwybrau mudo diogel a chyfreithlon, gan drafod Bil Mudo Anghyfreithlon Llywodraeth y DU yn benodol, a gwasgaru ceiswyr lloches. Hefyd bydd cyflwyniad gan Lu'r Ffiniau am ei waith parhaus o dargedu cyffuriau, a thrafodaeth o gynlluniau Llywodraeth y DU i weithredu'r *Integrated Review Refresh 2023* ar gyfer diogelwch y DU.

Bydd neges yn cael ei chyhoeddi ar ôl y cyfarfod, a byddaf yn rhoi gwybod ichi am hyn maes o law.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Jenny Rathbone AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol.

Jane Hutt

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Eitem 3.2

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

21 Mehefin 2023

Annwyl Jenny,

**Y DU a Sbaen: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd**

Fel y byddwch yn gwybod, mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn gyfrifol am fonitro'r broses o weithredu cytundebau rhyngwladol nad ydynt yn ymwneud â masnach yn y Chweched Senedd.

Yn ystod ein cyfarfod ar 12 Mehefin 2023, trafodwyd y DU a Sbaen: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd. Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol o drwyddedau gyrru yn y DU a Sbaen ac ar gyfer cyfnewid data cerbydau a cheidwaid cerbydau at ddiben ymchwilio i droseddau traffig penodol cysylltiedig â diogelwch ffyrdd.

Wrth i ni drafod y cytundeb, fe wnaethom gytuno i dynnu eich sylw eich Pwyllgor at y cytundeb gan ei fod yn monitro hawliau dinasyddion yr UE sy'n byw yng Nghymru o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE.

Atodir ein hadroddiad diweddaraf er gwybodaeth i chi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Cytundebau rhyngwladol

## Cytundebau a drafodwyd ar 12 Mehefin 2023

Mehefin 2023

# 1. Y cefndir

**1.** Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad sy'n gyfrifol am graffu ar gytundebau rhyngwladol yn y Chweched Senedd nad ydynt yn ymwneud â masnach.

**2.** Gall cytundebau rhyngwladol a lofnodir gan Lywodraeth y DU ymdrin â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig neu faterion sydd â goblygiadau polisi sy'n bwysig i Gymru.

**3.** Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr effaith ar Gymru yn sgil cytundebau rhyngwladol a osodir yn Senedd y DU o dan y broses a sefydlwyd gan *Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethu 2010* ("Deddf 2010"). Mae'n darparu cyfnod craffu cychwynnol o 21 diwrnod.

**4.** Mae ein trafodaethau ynghylch cytundeb rhyngwladol yn ystyried y canlynol:

- a yw'n ymwneud â chymhwysedd y Senedd; a/neu
- a oes goblygiadau polisi posibl i Gymru.

**5.** Ar 12 Mehefin 2023[1], gwnaethom ystyried dau gytundeb rhyngwladol a oedd wedi'u gosod yn ddiweddar yn Senedd y DU:

- y DU/Sbaen: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd
- y DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch tystysgrifau diogelwch mewn cysylltiad â gwasanaethau trafnidiaeth rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel

**6.** Gwnaethom gytuno i gymryd camau pellach mewn perthynas ag un o'r cytundebau. Mae manylion pob un o'r cytundebau a'n camau gweithredu priodol wedi'u nodi isod.

[1] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 12 Mehefin 2023

# 2. Cytundeb y mae angen gweithredu pellach yn ei gylch

**Y DU/Sbaen: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd**

**7.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 27 Ebrill 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 15 Mehefin 2023.

**8.** Mae'r cytundeb hwn yn darparu ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol ynghylch trwyddedau gyrru yn y DU a Sbaen ac ar gyfer cyfnewid data cerbydau a cheidwaid cerbydau at ddiben ymchwilio i droseddau traffig penodol sy'n gysylltiedig â diogelwch ffyrdd. Mae'r cytundeb yn rhychwantu Gibraltar.

**9.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y bydd y cytundeb dwyochrog yn gwneud y canlynol:

- cydnabod yn gilyddol drwyddedau i'w defnyddio dros dro heb fod angen i'r deiliad gario Trwydded Yrru Ryngwladol;
- rhoi'r hawl i ddeiliaid trwydded y DU sydd eisoes yn preswylio yn Sbaen, neu a ddaw yn breswylwyr yno yn y dyfodol, i gyfnewid eu trwydded yrru ar gyfer y DU heb fod angen sefyll prawf gyrru ymarferol neu brawf gyrru theori pellach (ac i'r gwrthwyneb); a
- darparu ar gyfer cyfnewid data ceidwaid cerbydau rhwng y DU a Sbaen at ddiben gorfodi troseddau traffig ffyrdd penodol a restrir yn y cytundeb. Mae'r troseddau a restrir yn cynnwys goryrru a methu â gwisgo gwregys diogelwch.[2]

[2] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Sbaen: Cytundeb ar Gydnabyddiaeth Gilyddol a Chyfnewid Trwyddedau Gyrru Cenedlaethol ac ar Gyfnewid Gwybodaeth am Droseddau Traffig Cysylltiedig â Diogelwch Ffyrdd, Ebrill 2023, paragraff 2.1 [Saesneg yn unig]

**10.** Yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth y DU yn nodi bod angen tua £350,000 i adeiladu'r system newydd ar gyfer cyfnewid data ac y bydd yn arwain at gostau rhedeg blynyddol o tua £20,000.[3]

**11.** Yn flaenorol, darparodd aelodaeth o'r UE ar gyfer cydnabyddiaeth gilyddol â Sbaen ynghylch trwyddedau gyrru. Er bod y DU yn rhan o Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig, sy'n llywodraethu'r gydnabyddiaeth gilyddol ynghylch trwyddedau, mae'r confensiynau hynny'n gymwys i ymweliadau dros dro yn unig, ac nid i drefniadau preswylio. Roedd modd cyfnewid data cerbydau a cheidwaid cerbydau yn flaenorol o dan Gyfarwyddeb Cyfnewid Trawsffiniol yr UE.

**12.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig ac wedi rhannu testun drafft o'r cytundeb cyn cytuno arno. Cafodd y sylwadau a ddaeth i'r gweinyddiaethau datganoledig eu hystyried a'u hadlewyrchu yn null gweithredu'r Llywodraeth.[4] Nodwn fod y dull hwn yn adlewyrchu ymgysylltiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â chytundeb tebyg â'r Eidal a drafodwyd mewn cyfarfod ar 13 Chwefror 2023.[5]

**13.** Gan fod y cytundeb yn ymwneud â mater a gedwir yn ôl (trwyddedu gyrwyr) o fewn Atodlen 7A i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006* (Deddf 2006), nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig, wrth groesawu ymgysylltiad cynyddol Llywodraeth y DU â'r llywodraethau datganoledig ar y math hwn o gytundeb rhyngwladol.

**14.** Gwnaethom gytuno hefyd i dynnu sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol at y cytundeb, gan ei fod yn monitro hawliau dinasyddion Ewropeaidd sy'n byw yng Nghymru o dan y Cytundeb Ymadael rhwng y DU a'r UE.

[3] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 7.2
[4] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.3
[5] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 13 Chwefror 2023

# 3. Cytundeb wedi'i nodi er gwybodaeth

**Y DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch tystysgrifau diogelwch mewn cysylltiad â gwasanaethau trafnidiaeth rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel**

**15.** Gosodwyd y cytundeb rhyngwladol hwn yn Senedd y DU ar 21 Ebrill 2023. Ei ddyddiad cau ar gyfer craffu, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf 2010, oedd 8 Mehefin 2023.

**16.** Mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer cydnabod tystysgrifau diogelwch a ddyroddir gan awdurdodau diogelwch ym Mhrydain Fawr a'r UE i'w defnyddio yn rhannau'r DU a Ffrainc o Dwnnel y Sianel a hyd at y gorsafoedd croesi ffin cyntaf yn eu tiriogaethau.

**17.** Bydd y cytundeb yn galluogi gweithredwyr rheilffyrdd i fodloni eu gofynion o ran tystysgrifau diogelwch ar gyfer Twnnel y Sianel gan ddefnyddio un dystysgrif ddiogelwch a ddyroddir naill ai ym Mhrydain Fawr, neu yn yr UE.

**18.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cydnabyddiaeth gilyddol ynghylch tystysgrifau diogelwch wedi'i darparu yn flaenorol pan oedd y DU yn aelod o'r UE. Er bod yr UE a'r DU wedi estyn cydnabyddiaeth gilyddol ynghylch tystysgrifau diogelwch y tu hwnt i ddiwedd cyfnod pontio Brexit ar gyfer eu rhannau priodol o Dwnnel y Sianel dros dro tan 27 Mawrth 2024, bwriad y cytundeb yw darparu fframwaith hirdymor ar gyfer cydnabod tystysgrifau diogelwch ar gyfer Twnnel y Sianel.[6]

**19.** Mae trafnidiaeth rheilffyrdd yn fater a gedwir yn ôl, fel y darperir ym mharagraff 117 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006. Mae pwnc Deddf Twnnel y Sianel 1987 wedi'i gadw'n ôl yn benodol gan baragraff 118 o Atodlen 7A i Ddeddf 2006.

**20.** Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynnwys polisi y cytundeb yn ymwneud yn llwyr â mater a gedwir yn ôl ym Mhrydain Fawr (heb unrhyw oblygiadau i'r gweinyddiaethau datganoledig), ac felly nid ymgynghorwyd â'r gweinyddiaethau datganoledig o ran drafftio'r cytundeb.[7]

**21.** Nodwyd y cytundeb gennym er gwybodaeth yn unig.

[6] Llywodraeth y DU, Memorandwm Esboniadol: Y DU/Ffrainc: Cytundeb ynghylch tystysgrifau diogelwch mewn cysylltiad â gwasanaethau trafnidiaeth rheilffyrdd drwy Gysylltiad Sefydlog y Sianel, Ebrill 2023, paragraff 3.5 [Saesneg yn unig]
[7] Y Memorandwm Esboniadol, paragraff 10.1

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**



Rebecca Evans AS

Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

23 Mehefin 2023

Annwyl Rebecca,

**Dogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**

Yn ein hadroddiad ar graffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, daethom i'r casgliad a ganlyn:

> "*Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau.*"

Anfonwyd llythyr wedi hynny at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd ar 8 Mawrth 2023, a oedd yn gofyn y cwestiwn hwn:

> *"Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?"*

Cawsom ymatebion gan Gadeiryddion y pwyllgorau a ganlyn ac mae'r holl ymatebion wedi'u cyhoeddi ar wefan y Senedd:

- Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
- Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
- Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai
- Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
- Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
- Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Roedd yr ymatebion yn nodi nifer o themâu cyffredin a meysydd lle y gellid gwneud gwelliannau i broses y gyllideb. Ceir crynodeb o'r rhain isod:

### Amseroldeb

Fel pwynt cyffredinol, nododd nifer o'r Pwyllgorau fod y duedd yn y blynyddoedd diwethaf o gyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft yn ddiweddarach yn y flwyddyn, gan arwain at gwtogi amserlen y gyllideb, wedi'i gwneud yn heriol i asesu effaith y Gyllideb Ddrafft yn ystyrlon ar y meysydd polisi o fewn eu cylchoedd gwaith. Roedd rhai pwyllgorau o'r farn bod hwn yn wendid allweddol sy'n amharu'n sylweddol ar allu'r Pwyllgorau i ystyried cynigion cyllidebol yn fanwl.

### Tryloywder

Roedd llawer o'r Pwyllgorau yn teimlo y gallai Llywodraeth Cymru fod yn fwy tryloyw yn y ffordd y mae'n cyflwyno ei gwybodaeth yn y Gyllideb Ddrafft. Yn benodol, teimlai'r Cadeiryddion y dylid nodi'n glir effaith penderfyniadau cyllidebol ar feysydd polisi o fewn cylch gwaith pob Pwyllgor.

Mae hyn yn adleisio Argymhelliad 13 yn ein hadroddiad ar Gyllideb Ddrafft 2023-24 a oedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'r ffordd y mae'n cyflwyno gwybodaeth mewn dogfennau a gyhoeddwyd ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft fel ei bod yn darparu:

- asesiad o effaith penderfyniadau gwariant ar draws portffolios, gan gynnwys effaith ymarferion ailflaenoriaethu ac eglurder ar effaith penderfyniadau mewn portffolios mewn termau real; ac
- asesiad o sut y mae penderfyniadau gwario Llywodraeth Cymru yn cefnogi mesurau ataliol (neu nad ydynt yn gwneud hynny).

Mewn ymateb, gwnaethoch dderbyn yr argymhelliad hwn mewn egwyddor, gan nodi:

> *"Er ein bod wedi ymrwymo i wella sut rydym yn gwneud ein penderfyniadau gwariant ac yn amlinellu eu heffeithiau, rhaid i ddull o'r fath fod yn gymesur.*
>
> *Rydym eisoes yn cyhoeddi cyfres o ddogfennau fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft, sy'n cynnwys ymatebion Gweinidogion unigol i'w priod bwyllgorau craffu yn y Senedd, ac sy'n rhoi cyfrif manylach ar sut y mae penderfyniadau'r Gyllideb Ddrafft wedi effeithio ar grwpiau gwahanol neu wedi ystyried materion megis atal. Mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn parhau i amlinellu'r dystiolaeth gyd-destunol sydd wedi cefnogi ein penderfyniadau gwariant.*
>
> *Rydym yn agored i ystyried newidiadau pellach y gellid eu gwneud fel rhan o waith y Cynllun Gwella'r Gyllideb."*

## Ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru

Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, gyda rhai Cadeiryddion yn dweud nad oedd cyflwyniadau gweinidogion mor gynhwysfawr ag yr oeddent mewn blynyddoedd blaenorol. Galwodd eraill hefyd ar adrannau Llywodraeth Cymru i ymateb yn llawn ac yn fanwl i gais ysgrifenedig pob Pwyllgor am dystiolaeth.

## Ymateb i argymhellion cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol

Yn olaf, roedd nifer o'r Pwyllgorau yn siomedig nad oedd Llywodraeth Cymru yn gallu ymateb i argymhellion y Gyllideb Ddrafft ddigon cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol. Roedd rhai Pwyllgorau yn teimlo hefyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy i egluro'r gwahaniaethau rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol cyn y ddadl ar y Gyllideb Derfynol.

Rydym yn croesawu eich parodrwydd i ymgysylltu â'r Pwyllgor ar y materion hyn a'r ffaith eich bod yn agored i drafod newidiadau i'r ffordd y caiff gwybodaeth ei chyflwyno ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

Gofynnwn felly i'r pryderon hyn gael eu hystyried cyn cylch cyllideb 2024-25.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd a grybwyllwyd uchod.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Jane Hutt AS/MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

26 Mehefin 2023

Annwyl Jenny,

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr**

Diolch am eich llythyr ynglŷn â darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr ac ymddiheuraf am yr oedi cyn ymateb.

Gallaf eich sicrhau o'n hymrwymiad parhaus cadarn i sicrhau bod llety digonol sy'n ddiwylliannol-briodol ar gael i gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr drwy safleoedd awdurdodau lleol a safleoedd preifat. Mae'r gofynion ar awdurdodau lleol i baratoi Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr ac adrodd ar yr angen am safleoedd a lleiniau ychwanegol yn eu hardal, gan gynnwys lleiniau tramwy parhaol a dros dro, wedi hen ennill eu plwyf. Serch hynny, mae'r broses wedi amlygu'r heriau sylweddol sy'n wynebu cymunedau Sipsiwn a Theithwyr.

Fel yr ydych wedi tynnu sylw ato, mae'r tîm polisi sy'n gyfrifol am hyn wedi wynebu heriau o ran staffio gyda bylchau mawr yn y gweithlu ers blwyddyn. Mae hyn wedi golygu nad ydym wedi gallu ennyn nac annog prosiectau newydd yn y ffordd y byddem wedi dymuno. Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n recriwtio i bob swydd wag yn y tîm ac rydym yn anelu at lenwi'r swyddi cyn gynted â phosibl.

**Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr**

Yn 2021-22 roedd gennym gyllideb o £3.5 miliwn ac yn 2022-23 roedd gennym gyllideb o £3.690 miliwn ar gyfer y Grant Cyfalaf Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Fodd bynnag, mae'r gyllideb honno wedi gostwng i £3.29 miliwn ar gyfer 2023-24, ond nid yw hynny'n adlewyrchu diffyg cefnogaeth i'r cymunedau hyn ond yn hytrach y nifer isel sy'n manteisio ar y grant. Mae hyn yn bennaf oherwydd yr ystod o heriau sy'n wynebu awdurdodau lleol o ran datblygu safleoedd. Diben y grant yw adnewyddu llety presennol, adeiladu lleiniau newydd a gwella cynaliadwyedd safleoedd i breswylwyr. Mae ceisiadau yn dod i law ac yn cael eu cytuno fel rhan o raglen dreigl. Rydym yn parhau i sicrhau bod awdurdodau lleol ledled Cymru yn ymwybodol o'r grant. Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, nid yw'r grant naill ai wedi'i ddefnyddio'n llawn neu mae'r grantiau hynny sydd wedi'u rhoi yn y lle cyntaf wedi'u gohirio oherwydd nad yw'r gwaith adeiladu wedi'i orffen gan olygu nad oes modd i'r awdurdodau lleol gwblhau'r hawliadau grant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**Darparu Safleoedd**

Crëwyd y ddyletswydd i nodi a diwallu'r angen am lety priodol o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014. O ganlyniad i'r ddyletswydd, mae dros ddau gant o leiniau newydd naill ai wedi'u creu neu eu hadnewyddu, ac mae llawer ohonynt ar safleoedd teuluol preifat bach. Mae hyn yn cymharu â dim ond llond llaw o leiniau newydd a grëwyd rhwng 1997 a 2014.

Fodd bynnag, er bod cynnydd da wedi'i wneud pan gyflwynwyd y Ddeddf am y tro cyntaf, nid yw'r cynnydd hwnnw wedi'i gynnal yn fwy diweddar ym mhob rhan o Gymru. Ar ôl cyflwyno deddfwriaeth a rhoi cyllid sylweddol i fynd i'r afael â'r angen, rydym yn pryderu, mewn rhai achosion, fod cynlluniau wedi arafu ers sawl blwyddyn ac nad oes digon o gynnydd wedi'i wneud i fynd i'r afael ag anghenion y cymunedau hyn o ran safleoedd.

Rwy'n deall bod cynigion am safleoedd newydd, ac am welliannau hyd yn oed, yn aml yn gymhleth a bod angen trafodaeth â'r gymuned, a bod penderfyniadau weithiau'n destun her. Mae hyn yn golygu y gallai cynlluniau am safleoedd newydd neu welliannau i safleoedd presennol weithiau gymryd peth amser i'w datblygu cyn i geisiadau cynllunio a grant gael eu gwneud.

Fodd bynnag, er gwaetha'r heriau hynny, rydym yn disgwyl i bob awdurdod lleol yng Nghymru sicrhau bod safleoedd a lleiniau digonol yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion cymunedau Sipsiwn ledled Cymru. Rwy'n disgwyl gweld asesiadau cywir o anghenion a chamau gweithredu clir ynghylch sut i ddiwallu'r anghenion hynny er mwyn ymdrin â'r bylchau sy'n bodoli. Mae'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer safleoedd parhaol a thramwy yn bell o fod yn ddigonol i ateb y gofynion ac ni all hyn barhau.

**Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr**

Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu cadernid yr asesiadau ar draws Cymru i fodloni'r gofynion o ran safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae swyddogion yn cydweithio ag awdurdodau lleol a chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i weld maint yr anghenion ac er mwyn deall yr hyn sy'n dal i rwystro cynnydd. Byddaf yn ysgrifennu at bob awdurdod lleol i rannu canlyniad yr asesiadau hynny. Yn ddiweddar, rwyf wedi cyfarfod â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac aelodau cabinet y cynghorau sy'n arwain ar gydraddoldeb i helpu i ddeall yr heriau hynny'n well a cheisio cytuno i gydweithio ledled Cymru i sicrhau bod darpariaeth ddigonol o safleoedd yn flaenoriaeth ar gyfer safleoedd parhaol a thramwy.

Unwaith y bydd hyn wedi'i gwblhau, byddaf yn cynnal cyfarfodydd dwyochrog ag awdurdodau lleol i adolygu eu hasesiadau a deall y gwaith sydd wedi'i wneud hyd yn hyn. Byddaf yn edrych ar y camau sydd angen eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau sy'n parhau i fodoli, ac yn gofyn am gadarnhad o'u hymrwymiad i sicrhau darpariaeth ddigonol o safleoedd parhaol a thramwy ledled Cymru i ddiwallu anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn unol â'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt MS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

17 Mai 2023

Annwyl Jane,

Darparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Mae sicrhau bod safleoedd yn diwallu anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr o ddiddordeb mawr i'n pwyllgor. Rydym yn pryderu am y ffaith na wnaed fawr o gynnydd o ran darparu digon o safleoedd sy'n ddiwylliannol briodol ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac nad oes unrhyw ddyraniad wedi'i wario (neu y rhagwelir y caiff ei wario) yn ystod blwyddyn ariannol 2022-23 o Grant Cyfalaf Safle Sipsiwn a Theithwyr, er bod £3.690m wedi'i ddyrannu.

Drwy ein gwaith yn ymwneud â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru, rydym wedi dysgu mai ychydig o gynnydd a wnaed mewn perthynas ag adolygu asesiadau o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr awdurdodau lleol (yr Asesiadau). O gofio y bydd angen cwblhau'r cylch nesaf o asesiadau yn 2024 mae angen bwrw ymlaen â'r gwaith dadansoddiad fel mater o frys.

Roeddem yn pryderu'n arw o glywed y gallai prinder adnoddau yn yr Adran Cydraddoldeb a throsiant staff uchel fod wedi cyfrannu at yr oedi hwn ac y gallai hyn fod yn rhan o'r rheswm pam nad oes cyllid grant ar gael.

Byddem, felly, yn falch o gael ymateb i'r canlynol:

1. Pa fframwaith sydd ar waith ar gyfer adolygu'r Asesiadau a phryd y cânt eu cwblhau? Sut fydd cyrff yn y trydydd sector yn cael gwybod beth yw'r casgliadau?
2. Pa adnoddau sydd ar gael i gynnal yr adolygiadau hyn?
3. Os nad yw Asesiadau awdurdod lleol wedi'u cymeradwyo, a yw hynny'n effeithio ar ei allu i wneud cais am arian grant i ddatblygu safleoedd newydd neu i wella safleoedd presennol?
4. Pa gynnydd a wnaed i adolygu effeithiolrwydd y broses asesu a sut y gellid ei chryfhau?
5. Pa gynnydd a wnaed o ran cymryd y camau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru i ddarparu safleoedd, yn enwedig o ran sicrhau bod y mecanweithiau cyfreithiol presennol yn cael eu defnyddio'n llawn i sicrhau bod cynlluniau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth bresennol a hefyd o ran y cynllun peilot tair blynedd i roi cyngor i'r rhai sy'n ceisio datblygu safleoedd preifat.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Rydym wedi clywed bod y sefyllfa'n awr yn fwy difrifol na phan gynhaliodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei ymchwiliad i ddarparu safleoedd ar gyfer cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a hynny yn ystod haf 2022. Mae'n hollbwysig ein bod mewn sefyllfa i ddeall a diwallu anghenion y gymuned.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb erbyn 31 Mai 2023. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

27 Mehefin 2023

Annwyl Ms Rathbone AS

Ar 27 Mai 2022, ysgrifennais atoch yn rhoi ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 3 yn adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol Craffu Blynyddol ar Waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: Y wybodaeth ddiweddaraf, gan fod yr argymhelliad yn ymwneud â hyfforddiant a datblygiad proffesiynol gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. O ran yr honiadau yn yr adroddiad bod Llywodraeth Cymru'n 'dibynnu'n helaeth' ar y Comisiynydd, dywedais y byddai gwaith dadansoddi pellach yn cael ei wneud ac y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda swyddogion y Comisiynydd i ddeall yn well beth yw natur a maint y ceisiadau hyn am gymorth, er mwyn rhoi darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei adnoddau.

Yn eich llythyr at y Comisiynydd ar 23 Mawrth 2023, cyfeirir at ganfyddiad 'bod gormod o amser ac adnoddau Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u neilltuo i helpu Llywodraeth Cymru i gymhwyso ei deddfwriaeth ei hun, a hynny ar draul cyrff cyhoeddus eraill'. Felly, roeddwn am achub ar y cyfle hwn i rannu Atodiad A isod, sy'n rhoi dadansoddiad o geisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth i swyddfa'r Comisiynydd yn 2021-22. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda swyddogion y Comisiynydd i baratoi'r dadansoddiad hwn ac rwy'n ddiolchgar am y dull cydweithredol sy'n cael ei ddefnyddio gennym o hyd i gryfhau datblygu cynaliadwy yng Nghymru.

Yn gywir,

**Dr Andrew Goodall**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

Copi: Y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 6935
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

**ATODIAD A: DADANSODDIAD O 'GEISIADAU AM GYMORTH' LLYWODRAETH CYMRU I SWYDDFA COMISIYNYDD CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

**Y CEFNDIR**

Ym mis Mai 2022, yn dilyn sylw'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol bod Llywodraeth Cymru yn 'dibynnu'n helaeth' ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y Dyfodol, mae swyddogion yn yr Is-adran Dyfodol Cynaliadwy wedi gweithio gyda swyddogion y Comisiynydd i ddeall yn well beth yw natur a maint y ceisiadau hyn gan Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei adnoddau. Mae galw Llywodraeth Cymru ar y Comisiynydd wedi cael ei godi'n gyhoeddus ar sawl achlysur.

**Enghraifft 1**: ar 1 Chwefror 2021, yn y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (y bumed Senedd), dywedodd y Comisiynydd:

> *So, over the last two and a half years, we've had 663 requests for advice from public bodies; 43 per cent of those requests have been from Welsh Government […]*

**Enghraifft 2:** ar 7 Chwefror 2022, yn y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, dywedodd y Comisiynydd:

> *So, in all, we've received, to date, 1,061 requests for support since May 2018 […] The number of requests from public bodies in total is 362 […]. Of those 362, 157 have come solely from Welsh Government. The Welsh Government are one public body out of 44, and yet almost half of all requests for support are coming from Welsh Government and, as I said, often in these big, meaty topics and subject areas.*

**Enghraifft 3:** ar 11 Ebrill 2022, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ei adroddiad *Craffu blynyddol ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol: y wybodaeth ddiweddaraf*, a oedd yn nodi:

> *Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n helaeth ar swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer cefnogaeth a chyngor o ran y ffordd y caiff y Ddeddf ei hymgorffori yn ei gwaith, ac mae hyn yn golygu bod angen newid diwylliant.*

Roedd argymhelliad 3 yn yr adroddiad yn nodi:

> *Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'n defnyddio hyfforddi a datblygu proffesiynol i sicrhau bod ei chyflogeion yn deall y Ddeddf yn llawn ac yn cydymffurfio â hi, fel nad yw'n ymddangos bod angen dibynnu gymaint ar swyddfa'r Comisiynydd.*

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

Ar 27 Mai 2022, ymatebodd yr Ysgrifennydd Parhaol:

> *Mae'r Comisiynydd wedi awgrymu bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno oddeutu 15% o gyfanswm y ceisiadau a gafwyd gan ei swyddfa ers mis Mai 2018. Mae angen dadansoddi ymhellach i wybod beth yw natur y ceisiadau hyn i weld beth yw'r gwir sefyllfa o ran yr honiadau bod dibyniaeth sylweddol ar y Comisiynydd o du Llywodraeth Cymru, ac i ba raddau y mae'r ceisiadau hyn am gymorth yn deillio o ddiffyg dealltwriaeth o sut i gydymffurfio â'r Ddeddf. Mae Swyddogion yn gweithio gyda'r Comisiynydd er mwyn deall yn well natur a nifer y ceisiadau hyn a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, er mwyn creu darlun cliriach o'r sefyllfa a helpu'r Comisiynydd i reoli ei hadnoddau.*

Ar 23 Mawrth 2023, ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y Comisiynydd newydd yn ei groesawu i'w swydd newydd. Roedd y llythyr yn cynnwys y geiriad canlynol:

> *Argymhellwyd yn ein hadroddiad, er mwyn cynorthwyo tryloywder y berthynas rhwng y Comisiynydd a Llywodraeth Cymru a chraffu arni, y dylech ystyried sut y mae busnes gyda Gweinidogion yn cael ei gynnal, gan gynnwys sut y caiff cyfarfodydd a negeseuon eu cofnodi a'u datgelu. Byddai hyn yn helpu i fynd i'r afael â'r canfyddiad bod gormod o amser ac adnoddau Swyddfa Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'u neilltuo i helpu Llywodraeth Cymru i gymhwyso ei deddfwriaeth ei hun, a hynny ar draul cyrff cyhoeddus eraill*.

Ar 24 Ebrill 2023, ymatebodd y Comisiynydd:

> *Yn eich llythyr rydych yn cyfeirio at ganfyddiad bod gormod o amser Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael ei neilltuo i gefnogi Llywodraeth Cymru er anfantais i gyrff cyhoeddus eraill. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn talu sylw manwl iddo. Fodd bynnag, rhaid i mi ddweud, ar dystiolaeth yr ychydig wythnosau diwethaf nid dyma'r argraff sydd gennyf.*

**DADANSODDIAD**

**Enghraifft 1:** O 2018-19 i 2020-21, derbyniodd swyddfa'r Comisiynydd 268 o geisiadau am gyngor gan gyrff cyhoeddus. Roedd 124 ohonynt gan Lywodraeth Cymru a 144 gan gyrff cyhoeddus eraill.

**Enghraifft 2:** Mae'r ffigur o 157 o geisiadau gan Lywodraeth Cymru yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarparwyd ar gyfer 2018-19 i 2020-21 (darperir rhagor o wybodaeth yn yr adran ffynonellau gwybodaeth). Yn ystod y cyfnod hwn, roedd ceisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth yn cyfateb i oddeutu 15% o'r holl geisiadau am gymorth. Mae'r

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan • Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

ffigurau a ddyfynnwyd gan y Comisiynydd yma hefyd yn cynnwys ceisiadau na weithredwyd arnynt gan y swyddfa.

**Enghraifft 3:** Rhoddodd swyddfa'r Comisiynydd wybodaeth o 2021-22 i'r Is-adran Dyfodol Cynaliadwy ynglŷn â cheisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth, ceisiadau gan gyrff cyhoeddus eraill am gymorth, a'r holl geisiadau eraill am gymorth. Darparwyd amcangyfrifon o'r ystodau amser sy'n ofynnol i ymateb i'r ceisiadau hyn hefyd, o 'ychydig o amser' (hyd at un awr) i 'aur' (mwy na deg diwrnod). Mae'r tabl isod yn crynhoi'r wybodaeth hon.

Mae *ceisiadau am gymorth* yn amrywio o ymholiadau sylfaenol a cheisiadau am wybodaeth i wahoddiadau i fod yn rhan o brosiectau o bwys. Nid yw'r Comisiynydd yn ymgynghorai statudol ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru ar wahân i ddatblygu dangosyddion a cherrig milltir cenedlaethol, canllawiau statudol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac wrth ddiwygio'r rhestr o gyrff sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf.

**Ceisiadau am gymorth i Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol (2021-22)**

| Ceisiadau am gymorth | Nifer y ceisiadau a ddaeth i law | Nifer y ceisiadau a gafodd eu derbyn* | Yr amser oedd ei angen i ymateb (oriau)** | Adnodd o ran pobl (CALl)*** | Canran yr amser a gymerwyd (%) |
|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 49 | 32 | 493.50 | 0.26 | 36 |
| Cyrff cyhoeddus eraill | 84 | 67 | 264.00 | 0.14 | 19 |
| Pob un arall | 239 | 161 | 609.75 | 0.33 | 45 |
| CYFANSWM | 372 | 260 | 1367.25 | 0.73 | 100 |

** Mae hefyd yn cynnwys cofnodion a restrir fel rhai 'gorffenedig', 'ar y gweill', neu'n 'rhan o ffrwd waith'.*
*** Gan gymryd pwynt canol yr ystodau amser a restrir.*
****Gan dybio wythnos waith o 42 awr gyda 38 diwrnod o absenoldeb. (CALl = Cyfwerth ag amser llawn.)*

O ran nifer y 'ceisiadau am gymorth', mae'r dadansoddiad yn dangos, yn 2021-22, bod 12.3% o'r 'ceisiadau am gymorth' y gweithredwyd arnynt wedi dod gan Lywodraeth Cymru, sef 36% o gyfanswm yr ymrwymiad amser oedd ei angen gan swyddfa'r Comisiynydd (0.26 CALl). Mae'n werth nodi bod ymateb i'r ceisiadau hyn yn cyfateb i gyfran fach o amser ac adnoddau pobl swyddfa'r Comisiynydd.

Er mwyn deall natur ceisiadau Llywodraeth Cymru am gymorth yn well, a'r ymatebion a gafwyd gan swyddfa'r Comisiynydd, gofynnwyd am adborth gan bob un o dimau Llywodraeth Cymru a oedd wedi gofyn am ymrwymiad lefel 'efydd' ac yn uwch na hynny

gan swyddfa'r Comisiynydd (yn cyfateb i fwy nag un diwrnod o waith) i ddeall natur a phwrpas yr ymgysylltiad â'r Comisiynydd yn well. Cyflwynir crynodeb o'r canfyddiadau hynny isod.

**CASGLIADAU**

- Nid oes digon o dystiolaeth i gadarnhau honiadau bod Llywodraeth Cymru yn 'dibynnu'n helaeth' ar y Comisiynydd.

- Gwahoddwyd tîm y Comisiynydd i gymryd rhan mewn prosiectau fel rhanddeiliaid fel rhan o ddulliau cynnwys ac ymgysylltu arferol gan dimau, ac er mwyn gwahodd y Comisiynydd i wneud sylwadau neu i roi'r cyfle iddynt i wneud hynny os ydynt yn dymuno. Gan fod rhyngweithio dwys rhwng llawer o'r darnau hyn o waith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae cynnwys y Comisiynydd yn benderfyniad rhesymegol, ac mae'r ymgysylltu o fudd i'r ddwy ochr.

- Nid yw'r ceisiadau'n deillio o ddiffyg dealltwriaeth swyddogion o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol .

- Mae'n ymddangos bod amcangyfrifon tîm y Comisiynydd o ben isaf yr amser a gymerwyd yn weddol gywir, er y teimlwyd mewn dau achos bod yr ymrwymiad a awgrymwyd wedi'i chwyddo.

- Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn hapus ag ansawdd y mewnbwn a gawsant gan swyddogion y Comisiynydd.

- Mae'r rhan fwyaf o swyddogion Llywodraeth Cymru yn teimlo bod digon o gefnogaeth ar gael o fewn Llywodraeth Cymru i dimau allu cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy, er y cydnabuwyd y byddai canllawiau mwy teilwredig o fudd mewn rhai meysydd yn ystod camau cynnar y gwaith o ddatblygu polisi.

- Nid yw'r geiriad 'ceisiadau am gymorth' yn cyfleu'n gywir natur y rhyngweithio rhwng Llywodraeth Cymru a swyddfa'r Comisiynydd. Mewn llawer o achosion, byddai'n fwy priodol galw'r 'ceisiadau' hyn yn 'wahoddiadau i gymryd rhan' – mewn ymgyngoriadau cyhoeddus, er enghraifft.

Fel rhan o'r pum ffordd o weithio sy'n ffurfio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio dulliau amrywiol i gynnwys pobl a rhanddeiliaid (gan gynnwys Comisiynwyr) yn y broses bolisi

ac fel bod modd integreiddio gymaint â phosibl â pholisïau a dulliau gweithredu a ddefnyddir yn ehangach ledled Cymru.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@gov.wales
Gwefan ● Website: www.gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. Dilynwch y ddolen i gael arweiniad ar sut fyddwn yn trin a defnyddio'ch data, yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?skip=1&lang=cy

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. Please follow the link for guidance on how we will handle & use your data, in accordance with the General Data Protection Regulations. https://gov.wales/about/welsh-government-privacy-notice/?lang=en

04 July 2023

Community Pharmacy Wales
Fferylliaeth Gymunedol Cymru

Jenny Rathbone MS
Chair of the Equality and Social Justice Committee, Senedd

By email: jenny.rathbone@senedd.wales

Dear Chair

**PRIMARY CARE ELECTRONIC PRESCRIBING SERVICE**
**MOVEMENT OF PRESCRIPTIONS ACROSS BORDERS**

Thank you for recently meeting with Community Pharmacy Wales to discuss out concern regarding the movement of prescriptions across the border to England. Below are our concerns that we raised during our meeting.

Although it is feasible, very few Welsh prescriptions are currently dispensed in England, either from England based community pharmacies or England based Distance Selling Pharmacies (DSPs). This is because it would rely on a paper prescription flowing across the border which would require a patient to present the prescription in person or by post to access their services. Unless action is taken by Welsh Government to prevent it, it will be impossible to retain this position following the introduction of the Electronic Prescription Service in Wales. We are asking for this protection from the Welsh Government to the community pharmacy network in Wales, particularly during the roll-out phase of implementation of the EPS, because of the risk to individual businesses prior to achieving a level playing field.

In England the number of items dispensed by Distance Selling Pharmacies is growing monthly but is currently some 4.5% of the total number of prescription items dispensed in England. Following the introduction of EPS in Wales, there is no reason to believe that the same % of Welsh prescriptions will not be dispensed by DSPs located in England due to the very aggressive marketing campaigns that they currently undertake. We are aware that they intend to increase their marketing activity in Wales immediately following the introduction of EPS and to target GPs located in the pilot sites.

The Wales based GP network operates two separate patient record systems. The Wales based community pharmacy network operates 8 patient management systems and it is intended to roll out EPS to community pharmacies over a fifteen-month period. This means that different areas across Wales will “go live” at different times making it easier for England based DSPs to target those areas. DSPs have existed in England for many years and are very slick and

Chief Executive: Russell Goodway OBE OStJ

2 Caspian Point, Caspian Way, Cardiff, CF10 4DQ
2 Caspian Pentir, Ffordd Caspian Caerdydd, CF10 4DQ
Tel./Ffon 029 2044 2070
Fax/Ffacs 029 2044 2071
russell.goodway@cpwales.org.uk
www.cpwales.org.uk


polished at blanketing areas with publicity – they have already been in contact with DHCW and others in Wales to find out more on the Welsh roll-out.

Prescriptions are footfall drivers into community pharmacies – so without prescriptions the pharmacies will have a reduced opportunity to deliver Clinical Services which will then impact on other parts of the NHS. Additionally, community pharmacies are also footfall drivers for the rest of the high street – reduced prescriptions in community pharmacies will result in reduced footfall. It is likely that the loss the lost income associated with the reduction in the number of prescriptions dispensed in Wales, together with the loss of associated retained purchase profit will result in further pharmacy closures. The rate of pharmacy closures in Wales is currently higher than in England where the reduction in the number of pharmacies was expected due to Government funding policy. By the end of August 2023, Wales will have less than 700 pharmacies for the first time in over 15 years with only 699 pharmacies compared to 717 in December 2019 – an overall reduction of 2.5%.

We would be grateful if your committee would reflect on the current proposal as a matter of urgency to ensure that Wales based practices are best protected in the interests of the patient population in Wales.

We would be happy to meet with you again or fellow committee members to discuss our concerns in more detail, if you feel that would be helpful.

Yours sincerely



**JUDY THOMAS**
**ACTING CHIEF EXECUTIVE**

Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
—
Legislation, Justice and Constitution Committee

Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
—
Welsh Parliament
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

26 Mehefin 2023

Annwyl Jenny

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Byddwch yn ymwybodol bod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion wedi'i gyfeirio at ein pwyllgorau i'w ystyried.

Yn ystod ein cyfarfod ar 19 Mehefin 2023, buom yn trafod y Memorandwm a'r materion sy'n berthnasol i'n cylch gwaith. Ar yr achlysur hwn, ac o gofio bod Llywodraeth Cymru yn dal i fod mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch nifer o ddarpariaethau perthnasol yn y Bil, ni fyddwn yn gofyn am ragor o dystiolaeth ar hyn o bryd. Bydd ein hadroddiad, yr ydym yn gobeithio ei osod ddechrau mis Gorffennaf, yn tynnu sylw'r Senedd at nifer o bwyntiau allweddol yr ydym o'r farn eu bod yn bwysig ar hyn o bryd. Byddwn yn tynnu eich sylw at ein hadroddiad ar ôl ei gyhoeddi os bydd yn ddefnyddiol i'ch trafodaethau.

O ystyried pwnc y Bil a'r pynciau sy'n gyffredin rhwng ein pwyllgorau, byddem yn ddiolchgar pe gallech dynnu ein sylw at unrhyw dystiolaeth a ddaw atoch a fyddai'n berthnasol i waith fy Mhwyllgor yn eich barn chi.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

E-bost - SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru

5 Gorffennaf 2023

Annwyl Jenny,

Diolch am eich llythyr, dyddiedig 22 Mehefin 2023, yn gofyn am eglurhad ar nifer o bwyntiau ar ôl i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion ar 19 Mehefin. Gweler yr ymatebion isod:

Part 1: Victims of criminal conduct

*Y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 ac eglurder ynghylch sut rydych yn rhagweld y gall y darpariaethau hyn effeithio ar gyrff datganoledig neu gyfrifoldebau datganoledig.*

Mae fy swyddogion wedi parhau i drafod y cymalau hyn gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, ac mae cyfreithwyr wedi bod yn cael sgyrsiau rheolaidd. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf rhwng swyddogion ddydd Mercher 14 Mehefin, ac yn y cyfarfod hwn cytunodd arweinwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder i ystyried ymhellach ein barn ar gymhwysedd mewn perthynas â'r cymalau hyn, a sut y gallent effeithio ar gyrff datganoledig. Bydd cyfarfod arall ar y mater hwn yn cael ei gynnal yn nes ymlaen ym mis Gorffennaf.

Byddwn mewn sefyllfa well i fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn yn llawn unwaith y byddwn wedi derbyn safbwynt mwy pendant ar y cymalau gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd ar y mater hwn wrth i'r sgyrsiau hyn fynd rhagddynt, a phan fydd gennym ddealltwriaeth fwy cyflawn o sut y byddai'r cymalau hyn yn effeithio ar gyrff neu gyfrifoldebau datganoledig yn ymarferol.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

*Mewn cysylltiad â chymal 15, eich pryderon penodol ynghylch y cynnig i gyhoeddi canllawiau statudol am gynghorwyr annibynnol ar drais domestig a thrais rhywiol a manylion y gwelliannau y byddech yn eu hystyried yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.*

Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd i Senedd y DU ar 29 Mawrth 2023, yn cynnwys darpariaethau ynghylch Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol. Fel y'i drafftiwyd, mae cymal 15 yn gosod dyletswydd yn gyfan gwbl ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau ar rolau a swyddogaethau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol / Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod y cymal hwn yn sicr o fewn ei chymhwysedd hi.

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud y bydd y canllawiau a gyhoeddir yn cynnwys materion fel prif swyddogaethau'r rolau hyn ochr yn ochr â’r arferion gorau a’r safonau gofynnol a argymhellir. Gallai’r canllawiau hefyd gynnwys gwybodaeth am y ffordd y dylai awdurdodau a sefydliadau eraill weithio gyda Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol / Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.

Mae'r pryderon ynghylch y cymal hwn yn ymwneud â'r ffaith bod hwn yn faes datganoledig, a gallai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei chanllawiau ei hun yn y maes hwn os bernir ei bod yn briodol gwneud hynny. Byddai cydsynio i Lywodraeth y DU gyhoeddi canllawiau statudol am y rolau yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru yn gallu rheoli'r hyn y mae'r canllawiau yn ei ddweud na sut mae'r rolau yn gweithredu yng Nghymru.

Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Genedlaethol bum mlynedd ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sy'n un o ofynion statudol Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae’r strategaeth yn cael ei gweithredu ar sail glasbrint cydweithredol ochr yn ochr â grŵp o sefydliadau partner allweddol, gan gynnwys yr heddlu a’r sector arbenigol. Byddai caniatáu i Lywodraeth y DU gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yng Nghymru yn tanseilio'r glasbrint a natur y gwaith partneriaeth cydweithredol.

Mae tîm polisi Trais a Cham-drin Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am eglurhad pellach ar eu hawgrymiadau ar gyfer gwelliannau posibl i gymal 15, er mwyn rhoi ystyriaeth lawn iddynt. Rydym yn aros am eu hymateb, ac felly nid ydym wedi cytuno’n derfynol ar ein safbwynt eto.

*Safbwyntiau ynghylch a fyddech yn ystyried mabwysiadu dull tebyg ar gyfer cymal 15 yng Nghymru a datblygu diffiniadau a chanllawiau ar rôl cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a chynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol.*

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â nodau cymal 15, sef dod â mwy o gysondeb i rolau Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol, a mwy o ymwybyddiaeth ohonynt. Byddai'n bosibl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau, ac mae hyn yn rhywbeth y dylai strwythur y glasbrint ei ystyried. Os ystyrir bod hyn yn ddefnyddiol ac yn angenrheidiol, gallai unrhyw ganllawiau o'r fath gael eu creu drwy gydweithio gwirioneddol gyda phartneriaid y glasbrint, sy'n cynnwys y sector arbenigol a dioddefwyr a goroeswyr cam-drin ar sail rhywedd.

Ysgrifennais at Weinidog Llywodraeth y DU ar 19 Mai i'w hysbysu o'r argymhelliad i atal cydsyniad ar gymal 15, gan egluro bod y penderfyniad hwn yn seiliedig ar y ffaith bod y dirwedd yng Nghymru wedi esblygu, a bod gennym bellach strwythur Partneriaeth Genedlaethol a Glasbrint ffurfiol ar gyfer cyflawni nodau Deddf Trais a Cham-drin

(Cymru) 2015. Mae'r strwythur hwn yn allweddol wrth negodi penderfyniadau ynghylch nodau ac ymrwymiadau cyffredin, sy'n cynnwys rolau a gofynion Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol a Chynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig, a'r potensial i gyhoeddi canllawiau i Gymru.

Part 2: Victims of Major Incidents

*Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 24-27 a 29-31, gan gynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gellid sefydlu cyfundrefn Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol (IPA) anstatudol yng Nghymru a pham y gallai hyn fod yn well i'r cynllun a gynigir yn Rhan 2 o'r Bil.*

Ar hyn o bryd rydym mewn trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 24-27 a 29-31, sy'n cyflwyno rôl Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol, i dynnu sylw at ein pryderon ynghylch sut mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru. Ar ei ffurf bresennol, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer yn gyfan gwbl i Ysgrifennydd Gwladol y DU benodi Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol os bydd rhywbeth mawr yn codi yng Nghymru, heb unrhyw fewnbwn gan Weinidogion Cymru er gwaethaf cymhwysedd y Senedd yn y maes hwn.

Os ydym i ddilyn ein hegwyddorion cyfansoddiadol, credwn mai Gweinidogion Cymru ddylai fod â'r pŵer i benodi Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol pe bai rhywbeth mawr yn codi yng Nghymru.
Mae hefyd yn aneglur i raddau sut y bydd y rôl hon yn gweithredu, ac mae'r rhain yn faterion yr ydym wedi bod yn eu trafod gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder fel adran noddi'r ddeddfwriaeth (gan gynnwys a oes unrhyw argoel y caiff y ddeddfwriaeth ei diwygio).


Yn olaf, rydym hefyd yn siomedig o weld darpariaeth ar gyfer Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol yn cael ei chyflwyno mewn deddfwriaeth nad yw hefyd yn cynnwys unrhyw ddarpariaethau a fyddai'n gosod dyletswydd ar unrhyw awdurdodau cyhoeddus i fod yn agored a datgelu gwybodaeth pan fyddant yn destun ymchwiliad.

Fel y nodwyd yn y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, credwn y byddai Gweinidogion Cymru, er gwaethaf y ddeddfwriaeth hon, yn gallu penodi Eiriolydd Cyhoeddus Annibynnol anstatudol yn sgil digwyddiad yng Nghymru.

Yng ngoleuni'r trafodaethau hyn, rydym wrthi’n ystyried pa opsiynau sydd ar gael inni yng Nghymru ar hyn o bryd, ac rydym yn gobeithio gallu rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Pwyllgor yn fuan.

*Cadarnhad ynghylch a yw Llywodraeth y DU yn cytuno â'ch asesiad nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 28 o'r Bil. Nodwn fod Llywodraeth y DU yn awgrymu bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn yn ei nodiadau esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil -*

Rydym wedi trafod hyn gyda Llywodraeth y DU, sydd wedi cadarnhau eu bod yn cytuno â'n hasesiad nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 28 o'r Bil, a bod y nodiadau esboniadol presennol yn anghywir. Maent wedi ymrwymo i adolygu'r geiriad yn y nodiadau esboniadol a fydd yn cyd-fynd â fersiwn derfynol y Bil i adlewyrchu'r sefyllfa yn gywir.



**Jane Hutt AS/MS**
Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip
Minister for Social Justice and Chief Whip

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Jane Hutt AS
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif

22 Mehefin 2023

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Dioddefwyr a Charcharorion

Annwyl Jane,

Trafododd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Memorandwm uchod ar 19 Mehefin a chytunodd i ofyn am eglurhad pellach i lywio ein hadroddiad. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu'r hyn a ganlyn:

<u>'Part 1: Victims of criminal conduct'</u>

- Y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 1 i 4, 11, 22 a 23 ac eglurder ynghylch sut rydych yn rhagweld y gall y darpariaethau hyn effeithio ar gyrff datganoledig neu gyfrifoldebau datganoledig.

- Mewn cysylltiad â chymal 15, eich pryderon penodol ynghylch y cynnig i gyhoeddi canllawiau statudol am gynghorwyr annibynnol ar drais domestig a thrais rhywiol a manylion y gwelliannau y byddech yn eu hystyried yn angenrheidiol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.

- Safbwyntiau ynghylch a fyddech yn ystyried mabwysiadu dull tebyg ar gyfer cymal 15 yng Nghymru a datblygu diffiniadau a chanllawiau ar rôl cynghorwyr annibynnol ar drais domestig a chynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol.

'Part 2: Victims of Major Incidents'

- Y wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chymalau 24-27 a 29-31, gan gynnwys rhagor o wybodaeth ynghylch sut y gellid sefydlu cyfundrefn Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol (IPA) anstatudol yng Nghymru a pham y gallai hyn fod yn well i'r cynllun a gynigir yn Rhan 2 o'r Bil.

- Cadarnhad ynghylch a yw Llywodraeth y DU yn cytuno â'ch asesiad nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer cymal 28 o'r Bil. Nodwn fod Llywodraeth y DU yn awgrymu



Senedd Cymru
Welsh Parliament

bod angen cydsyniad ar gyfer y cymal hwn yn ei nodiadau esboniadol sy’n cyd-fynd â'r Bil.[1]

Gan mai’r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 14 Gorffennaf, byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ymateb cyn gynted ag y mae’n gyfleus i chi a dim hwyrach na 4 Gorffennaf 2023.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

---

[1] Atodiad A, tudalen 50.

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vii o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon